

Gorchmyn'n Gwarcheidiaeth Arbennig

Beth yw Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig?

Gorchmynion a wneir gan y Llys yw Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, sy'n enwi Gwarcheidwad Arbennig a fydd yn gyfrifol amdanoch nes i chi gyrraedd 18 oed. Rhaid i'ch Gwarcheidwad Arbennig fod dros 18 oed a dylai fod ganddo berthynas bresennol neu bosibl â chi, er enghraifft: • Neiniau a Theidiau • Modryb/Ewythr • Brawd/Chwaer • Perthnasau eraill • Ffrind i'r teulu • Cymydog • Gofalwr maeth heb fod yn perthyn i chi.

Beth mae Gwarcheidiaeth Arbennig yn ei olygu?

Gwneir Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig pan fydd yr awdurdod lleol a'r Llys wedi penderfynu na allwch fyw gyda'ch Rhiant/Rhieni Biolegol yn barhaol. Byddwch yn byw gyda'ch Gwarcheidwad Arbennig nes eich bod yn 18 oed. Mae Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn golygu nad ydych yn derbyn gofal ac ni fydd gweithiwr cymdeithasol yn gysylltiedig mwyach i gael cyfarfodydd am eich cynllun gofal. Pan wneir y Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig bydd gennych gynllun cymorth hefyd. Gall y cymorth a gynigir gynnwys cymorth ariannol i'ch Gwarcheidwad Arbennig, cyngor ar amser gyda'ch Rhiant/Rhieni Biolegol a chymorth siarad i'ch helpu i ddeall eich stori bywyd. Bydd eich cynllun cymorth Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan weithiwr cymdeithasol Gwarcheidiaeth Arbennig.

Cyfrifoldeb Rhianta a Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig

Pan wneir Gorchmyn Gwarcheidiaeth Arbennig gan y Llys, mae'r Gwarcheidwad Arbennig yn cael cyfrifoldeb rhianta cyfreithiol drosoch. Mae hyn yn golygu y bydd eich Gwarcheidwad Arbennig yn gofalu amdanoch ac yn gwneud penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' i chi, er bod gan eich Rhiant/Rhieni Biolegol rywaint o gyfrifoldeb rhianta o hyd. Os oes anghytundeb rhwng eich Rhiant/Rhieni Biolegol a'ch Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig, yna ystyrir bod barn eich Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig yn bwysicach. Ar gyfer rhai penderfyniadau, rhaid i'ch Gwarcheidwad Arbennig ymgynghori â'ch Rhieni Biolegol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mynd â chi allan o'r wlad am fwy na thri mis
- Newid eich cyfenw.

Cysylltu â ni

Os oes gennych chi neu'ch Gwarcheidwad Arbennig gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, yna gallwch gysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol Gwarcheidiaeth Arbennig

drwy e-bost ar:

specialguardianship@bromorgannwg.gov.uk